# Cyngor Cymuned Pistyll

**Cadeirydd**

Cyng. William Jones

**Cynhelir Cyfarfod o'r Cyngor yn**
**Y Ganolfan, Llithfaen**
**Nos Fawrth 12fed o Ebrill '16 am 7:30y.h.**

## Rhaglen

1. Ymddiheuriadau

2. Hysbysiadau y Cadeirydd

3. Datgan Diddordeb

4. Cofnodion Cyfarfod Mis Mawrth 2016
   a) Cyflwyno a mabwysiadu'r cofnodion
   b) Materion yn codi

5. Ceisiadau Cynllunio
   **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C16/0272/43/LL
   **Lleoliad y Safle:** Caer Siddi, Llithfaen, Pwllheli, LL536PA
   **Dyddiad Cofrestru:** 22-Mar-2016
   **Math o Gais:** Llawn - Cynllunio/Full - Planning
   **Bwriad:** Estyniad unllawr blaen

6. Gohebiaeth

7. Trafod unrhyw fater arall

8. Cyllid

   Derbyniadau

   Taliadau –

9. Cyfarfod nesaf – 10fed o Fai 2016

---

Clerc / Clerk: Sianelen Pleming
sianelen@live.co.uk 01758 750 462

Cyngor Cymuned Pistyll

**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**A gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth 8fed o Fawrth '16 am 7:30y.h**

**Yn Bresennol**

Cynghorwyr – Emlyn Hughes, Lisbeth James, Gwilym Williams, Gwyn Roberts, Olwen Roberts, Dewi Ellis, Sianelen Pleming,a'r cyng. Aled Jones.

**Ymddiheuriadau**
Dafydd Roberts, William Jones, John Owen.

**Hysbysebiadau y Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr is-gadeirydd Olwen Roberts.

**Dangos Diddordeb**

Dim

**Cofnodion**

Cynigodd Gwyn Roberts bod y cofnodion yn gywir ac eiliodd Gwilym Williams.

**Materiob yn codi o'r cofnodion**

- **Biniau halen -** Darllenwyd llythyr gan Steffan Jones yn egluro trefn y cyngor. Pris cyflenwi bin fyddai £80 y bin a £156 os am lenwi bob bin yn unigol. Penderfynwyd bod £80 yn bris afresymol ar gyfer llenwi biniau. AJ i holi Steffan Jones yn y Cyngor Sir os oes opsiwn i lenwi biniau ein hunain a holi os yw bin 9 ar ffordd 24018 yn y plwyf. SP i holi am bris graean.
- **Golau Tynyparc -** Dim pellach i adrodd ar y golau. Cyfarfod wedi bod rhwng DR, perchennog Tyny parc a'r cyngor.
- **Dŵr yr Eifl –** Er bod hafn wedi ei chrafu ar draws y ffordd ger Brynffynnon i'r dŵr wast lifo iddi nid oes dim wedi digwydd lle mae'r broblem go iawn yn nes at Gors Lwyd,- y lôn drol yn arwain at yr hen waith dŵr.
- **Gwlis**
  1) **Pistyll –** Gwaith wedi dechrau yn Penisa'r Lôn a grant ychwanegol i wneud y gwaith i ben draw'r hes tai.
  2) **Llithfaen(lôn Rhosydd) –** Mae'r broblem yma yn well ond ddim wedi ei sortio. Alwyn Roberts am gael gair efo Stephen am y dŵr.

Clerc / Clerk: Sianelen Pleming
sianelen@live.co.uk 01758 750 462

Cyngor Cymuned Pistyll

Penderfynwyd y byddai y cynghorydd Aled Jones yn cysylltu ynglŷn â'r ddwy sefyllfa.

- **Golau Stryd ger yr Hen Eglwys** – wedi ei wneud y diwrnod canlynol.
- **Prydles y ganolfan** – Dal heb dderbyn y brydles.
- **Hysbysfwrdd** – Wedi cael ateb gan priffyrdd ond heb gael ateb gan cynllunio. SP i chwilio am brisiau ar gyfer y gwaith erbyn y cyfarfod nesaf.

**Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

**Gohebiaeth**

- Anfonwyd rhestr o gysylltiadau'r heddlu yn yr ardal. Mae swyddog o'r Heddlu yn dod i ddau gyfarfod o'r Cyngor Cymuned. SP i gysylltu i nodi pa bryd mae ein cyfarfodydd. Nodwyd bod y sefyllfa yn Llithfaen yn weddol ddistaw ar hyn o bryd.
- Nodwyd bod angen ymateb i'r cynllun ADau yn syth ar ôl y cyfarfod nesaf. Aeth LJ a'r cynllun i gael golwg arno.
- Unllais Cymru yn hysbysu cyfarfod 23 Mawrth. SP am fynd os yn gyfleus. Gofyn hefyd am aelodaeth - £82.

**Ceisiadau Ariannol**

- Cais ariannol gan Glwb Godre'r Eifl. Aelwyd Gwrtheyrn, Ambiwlans Awyr, Dawns i Bawb. Atgoffwyd y cyngor o'r polisi ein bod yn cefnogi elusennau yn y plwyf yn gyntaf. Penderfynwyd ariannu fel a ganlyn: Clwb Godre'r Eifl - £300, Aelwyd Gwretheyrn - £400. Bydd yr Ambiwlans Awyr a Dawns i Bawb ar y bwrdd tan y pwyllgor nesaf.

**Unrhyw Fater Arall.**

- Cais am wybodaeth os oedd First Responder yn y pentref. SP i holi beth yw oblygiadau hyn.
- Cŵyn gan Sera Williams bod ceir yn gyrru wrth ddod i mewn i Lithfaen o gyfeiriad Nefyn. AJ i holi fyddai modd defnyddio golau solar tebyg i un Edern ar ffin y pentref i arafu ceir.
- Cwynion wedi dod i law am gyflwr y fynwent ond nodwyd nad mynwent y cyngor yw hi ond mynwent breifat.
- Atgoffwyd y cynghorwyr am elusen Pistyll sydd yno ar ddefnydd plant y plwyf. Mae oddeutu £7 000 ynddi ar hyn o bryd.
- Mae loriau mawr iawn yn troi yn Llithfaen ac weithiau yn mynd yn sownd gan achosi tagfeydd. Gofyn i AJ gysylltu parthed rhoi arwydd ar ffordd Llanaelhaearn yn nodi nad yw'r ffordd yn addas ar gyfer loriau mawrion.

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 12fed o Ebrill am 7:30 y.h.**

---

Clerc / Clerk: Sianelen Pleming
sianelen@live.co.uk 01758 750 462